| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Derbyniadau Addysg Bellach (AB) Llawn Amser<br>Full Time Further Education (FE) Admissions Policy |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *FE Admissions Policy EIA Stage 1* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | Rheolwr Derbyniadau<br>Admissions Manager | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | Grŵp Prosiect Derbyniadau<br>Cynrychiolwyr Myfyrwyr AB<br><br>Admissions Project Group<br>FE Student Reps | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | - |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *02/02/22* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 02/02/25 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl y Cynnwys**

### Polisi Derbyniadau Addysg Bellach (AB) Lawn Amser


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Pwrpas | 3 |
| 2. | Cwmpas | 3 |
| 3. | Cyngor ac Arweiniad | 3 |
| 4. | Gofynion Mynediad | 3 |
| 5. | Y Broses Ymgeisio | 4 |
| 6. | Apeliadau | 5 |
| 7. | Ceisiadau i Newid Cwrs | 5 |
| 8. | Diwrnodau Myfyrwyr Newydd | 5 |
| 9. | Cadarnhad o Le | 6 |
| 10. | Ffioedd | 6 |
| 11. | Isafswm Niferoedd | 6 |
| 12. | Gofynion Iaith Saesneg | 6 |
| 13. | Myfyrwyr wedi'u Gwahardd | 6 |
| 14. | Gwiriadau DBS | 6 |
| 15. | Datgelu Collfarnau Troseddol | 6/7 |
| 16. | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 7 |
| 17. | Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 7 |
| 18. | Yr Iaith Gymraeg | 7 |
| 19. | Ymgynghoriad | 7 |
| 20. | Data Personol yr Ymgeisydd | 7/8 |

**Polisi Derbyniadau Addysg Bellach (AB) Lawn Amser**

## 1. Pwrpas

Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu Polisi Derbyniadau Addysg Bellach (AB) Lawn Amser y Coleg.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi yn berthnasol i holl raglenni AB y coleg. Mae addysg bellach yn ymwneud â chyrsiau sy'n is na lefel gradd prifysgol i bobl sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. Mae polisïau ar wahân yn berthnasol i geisiadau am brentisiaethau, cyrsiau rhan-amser ac Addysg Uwch.

Nod y polisi yw darparu dull tryloyw sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar gyfer ceisiadau i Goleg Cambria, o'r cais cychwynnol i dderbyn myfyrwyr.

## 3. Cyngor ac Arweiniad

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd i helpu ymgeiswyr i ddewis y cwrs neu'r rhaglen sy'n iawn iddyn nhw. Os bydd ymgeisydd yn gofyn am gyngor a chanllawiau cyn cyflwyno cais (neu ar unrhyw adeg drwy gydol y broses ymgeisio) yna gallant gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr.

## 4. Gofynion Mynediad

Mae holl ofynion mynediad y cwrs i'w gweld ar broffil y cwrs ar gyfer pob cwrs, sydd ar gael ar wefan y coleg www.cambria.ac.uk.

Os nad oes gan ymgeisydd y graddau TGAU disgwyliedig/gwirioneddol angenrheidiol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, bydd y Tîm Derbyniadau, y Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r timau cwricwlwm yn cysylltu â nhw i drafod hyn ac efallai bydd y cais yn cael ei drosglwyddo i gwrs mwy addas.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr ar y cwrs mwyaf priodol sy'n berthnasol i'w gallu a'u huchelgeisiau academaidd ar gyfer eu dyfodol. Mae pob cynnig lle yn amodol ar y gofynion mynediad penodol, ymlyniad at bolisïau'r Coleg a bod digon o alw am y cwrs a gynigir. Bydd y Coleg yn gofyn am weld prawf o gymwysterau ymgeiswyr. Gall y Coleg dynnu cynnig yn ôl os bydd ymgeisydd yn cyflwyno gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn eu cais.

### Ymgeiswyr â Chymwysterau o'r tu allan i'r DU

Mae Cambria yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr nad yw eu haddysg flaenorol wedi cynnwys cymwysterau'r DU. Dylai ymgeiswyr gael eu tystysgrifau/cymwysterau wedi eu cyfieithu i'r Saesneg. Yna gall y Tîm Derbyniadau eu trosi'n gyfatebiadau TGAU a'u hasesu yn ôl y gofynion mynediad ar gyfer y cwrs y gwnaed cais amdano.

## 5. Y Broses Ymgeisio

### 5.1 Cam 1 - Ffurflen Gais

Anogir ymgeiswyr i wneud cais ar-lein yn www.cambria.ac.uk. Gall Coleg Cambria ddarparu ffurflenni cais papur ar gais.

Gall y coleg ond prosesu un cais i bob ymgeisydd ar y tro. Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno nifer o geisiadau ar gyfer gwahanol gyrsiau yna bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â nhw i sefydlu pa gais yr hoffent gael ei brosesu.

Bydd ymgeiswyr yn derbyn cydnabyddiaeth o dderbyn eu cais pan fydd wedi'i gyflwyno.

Caiff pob cais ei wirio am gywirdeb a chyflawnder o fewn 48 awr o gael eu derbyn. Os oes unrhyw wybodaeth ar goll, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â'r ymgeisydd ar y ffôn, drwy e-bost neu neges destun i gael y wybodaeth goll. Ni fydd y cais yn cael ei brosesu nes i'r wybodaeth goll ddod i law.

### 5.2 Ffurflen Cam 2

Bydd Ffurflen Cam 2 yn cael ei hanfon drwy e-bost at ymgeiswyr i’w llenwi. Rhaid ei llenwi yn llawn er mwyn i'r cais gael ei ystyried.

Os oes angen cymorth ar ymgeisydd i lenwi'r ffurflen ar-lein Cam 2 gallant gysylltu â'r Tîm Derbyniadau i gael arweiniad a chefnogaeth.

Bydd ymgeiswyr yn cael cydnabyddiaeth bod eu Ffurflen Cam 2 wedi cael ei derbyn ar ôl iddi gael ei chyflwyno.

Caiff holl Ffurflenni Cam 2 eu gwirio am gywirdeb a chyflawnder o fewn 48 awr o gael eu derbyn. Os oes unrhyw wybodaeth ar goll, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â'r ymgeisydd ar y ffôn, drwy e-bost neu neges destun i gael y wybodaeth goll. Ni fydd y cais yn cael ei brosesu nes i'r wybodaeth goll ddod i law.

### 5.3 Adolygu Ceisiadau

Bydd ceisiadau yn cael eu hadolygu gan y timau cwricwlwm perthnasol er mwyn asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y cwrs ar sail;

- Y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn y ffurflen gais a'r Ffurflen Cam 2.
- A yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y cwrs.
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall yr adolygydd ofyn amdano er mwyn asesu addasrwydd (e.e. galwad ffôn neu gyfarfod i drafod a sefydlu addasrwydd sgiliau a phrofiad).

Os yw ymgeisydd wedi astudio yn Cambria o’r blaen, bydd yr adolygydd yn cymryd unrhyw faterion ymddygiad neu bresenoldeb blaenorol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ynglŷn â’r cynnig.

### 5.4 Canlyniad

Fel arfer, bydd cynigion fel a ganlyn;

- Cynnig amodol yn seiliedig ar yr ymgeisydd yn cyflawni'r graddau TGAU a nodir yng ngofynion mynediad y cwrs yr ymgeisiwyd ar ei gyfer.
- Cynnig diamod yn seiliedig ar ddarparu tystysgrifau gwreiddiol fel tystiolaeth o'r graddau TGAU gofynnol a nodir yng ngofynion mynediad y cwrs y gwnaed cais amdano. Fel arfer, dim ond i ymgeiswyr sydd eisoes wedi sefyll eu harholiadau TGAU y rhoddir cynigion diamod.

Pan fydd cynnig wedi cael ei wneud, bydd e-bost a neges destun yn cael eu hanfon at yr ymgeisydd i'w hysbysu am y cynnig.

Os na ellir gwneud cynnig addas, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at y Pennaeth Cynorthwyol perthnasol. Gellir gwahodd yr ymgeisydd i gwrdd â'r Pennaeth Cynorthwyol i gael gwybod am y penderfyniad ac i drafod opsiynau eraill. Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd ar gael i roi rhagor o gyngor ac arweiniad.

Os na ellir gwneud cynnig oherwydd nad yw'r coleg yn gallu diwallu anghenion ymgeisydd, bydd y Tîm Cynhwysiant yn cysylltu â'r ymgeisydd i'w hysbysu am y penderfyniad.

## 6. Apeliadau

Os bydd ymgeisydd yn dymuno gwneud apêl ynglŷn â’r penderfyniad i beidio â chynnig lle iddynt, mae ganddynt hawl i apelio ar yr amod nad ydynt wedi cael cynnig lle ar gwrs oherwydd ei fod yn llawn neu ddim yn cael ei gynnal, neu oherwydd nad oes ganddynt y gofynion mynediad cywir.

Dylid anfon apeliadau drwy e-bost at admissions@cambria.ac.uk o fewn 15 diwrnod gwaith i wneud y penderfyniad.

Caiff yr apêl ei chyfeirio at y Panel Apeliadau a fydd yn cynnwys y Pennaeth Marchnata, Derbyniadau a Digidol, y Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr, y Pennaeth Cynhwysiant a'r Rheolwr Derbyniadau.

Bydd y Panel Apeliadau yn cadarnhau canlyniad yr apêl drwy lythyr at yr ymgeisydd. Mae penderfyniad yr Apêl yn derfynol.

## 7. Ceisiadau i Newid Cwrs

Os bydd ymgeisydd yn newid eu meddwl ac eisiau newid y cwrs y gwnaed cais amdano ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, gallant gysylltu â'r Tîm Derbyniadau i ofyn am gael gwneud hyn. Yna bydd y cais newydd yn cael ei fewnbynnu gan y Tîm Derbyniadau a'i drosglwyddo i'r tîm cwricwlwm perthnasol i benderfynu ynglŷn â chynnig lle (yn unol â phwynt 5.3 uchod).

## 8. Diwrnodau Myfyrwyr Newydd

Gellid gwahodd ymgeiswyr i fynychu Diwrnod Myfyrwyr Newydd neu Ddiwrnod Profi. Mae’r rhain yn gyfle i ymgeiswyr ddod i'r coleg i gyfarfod eu tiwtoriaid a myfyrwyr newydd eraill, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol i roi cipolwg ar y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano.

**9. Cadarnhad o Le**

Cysylltir ag ymgeiswyr trwy e-bost a neges destun o leiaf bythefnos cyn dyddiad cychwyn eu cwrs a gofynnir iddynt gadarnhau eu lle ar-lein. Mae hyn yn rhan hanfodol o'r broses Dderbyn ac yn sicrhau bod ymgeiswyr wedi eu cofrestru'n llawn.

Ar ôl i ymgeisydd gadarnhau eu lle, anfonir amser a dyddiad cychwyn eu cwrs atynt.

Os na fydd yr ymgeisydd yn cadarnhau eu lle, efallai bydd y cwrs y gwnaethant gais amdano yn llenwi, a'r ymgeisydd yn gorfod dewis cwrs arall o ganlyniad.

**10. Ffioedd**

**10.1** Mae ein cyrsiau llawn amser am ddim i'r mwyafrif o ymgeiswyr, gyda chyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

**10.2** Os nad yw ymgeisydd yn Ddinesydd y DU/AEE gyda statws preswylydd sefydlog neu os nad ydynt wedi byw yn y DU am y 3 blynedd diwethaf, efallai y bydd yn rhaid iddynt dalu ffi cwrs i astudio. Bydd hyn yn cael ei asesu yn unigol yn ystod y broses Dderbyn.

**10.3** Fodd bynnag, efallai y bydd angen prynu citiau, offer neu iwnifform ar gyfer cyrsiau penodol.

**11. Isafswm Niferoedd**

Mae isafswm niferoedd o fyfyrwyr yn ofynnol er mwyn i bob cwrs gael ei gynnal. Pe na bai digon o niferoedd er mwyn i gwrs penodol gael ei gynnal, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gofrestru myfyrwyr ar gwrs tebyg.

**12. Ymgeiswyr Na Anwyd yn y DU**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr na anwyd yn y DU fod yn gymwys yn yr Iaith Saesneg ar lefel B1 ar gyfer cyrsiau Lefel 1, a B2 ar gyfer Lefel 2 ac uwch. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos hyn trwy fod wedi pasio prawf Iaith Saesneg cymeradwy. Os bydd ymgeiswyr na anwyd yn y DU eisiau astudio yn Gymraeg, mae'r un lefelau o gymhwysedd iaith yn ofynnol.

**13. Myfyrwyr wedi'u Gwahardd**

Gall myfyrwyr a waharddwyd o'r coleg yn flaenorol wneud cais am gwrs ar ôl i'w cyfnod gwahardd ddod i ben. Bydd angen gwneud ceisiadau ysgrifenedig i'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gofyn am ganiatâd i ddychwelyd i Cambria.

**14. Gwiriadau DBS**

Mae rhai cyrsiau yn gofyn am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Uwch (DBS). Mae'r rhain fel arfer ar gyfer cyrsiau sy'n ymwneud â gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl. Bydd Cambria yn hysbysu ymgeiswyr os oes angen iddynt gwblhau gwiriad DBS. Codir ffi wedi'i bennu gan y DBS.

**15. Datgelu Collfarnau Troseddol**

Mae Cambria wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal i ymgeiswyr beth bynnag y bo eu hamgylchiadau personol neu gefndir ac yn hynny o beth nid yw'n dymuno atal y

rheiny sydd â chollfarnau troseddol rhag ymuno â chwrs astudio yn ddiangen. Fodd bynnag, mae gan Cambria ddyletswydd i sicrhau diogelwch ei fyfyrwyr a'i staff a phobl eraill y mae myfyrwyr yn rhyngweithio â nhw fel rhan o'u cwrs astudio. Gan hynny, mae'r broses ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu collfarnau troseddol heb eu treulio.

**16.** **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Gofynnir i ymgeiswyr roi manylion unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ar eu Ffurflen Cam 2. Bydd hyn yn cael ei gyfeirio at y Tîm Cymorth Cynhwysiant fel y gellir cysylltu eto gyda'r ymgeisydd, a rhieni/gofalwyr lle bo angen, ynglŷn â'u hanghenion a sut y gellir eu cefnogi.

**17.** **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Deddfwriaeth**

Mae'r polisi wedi cael ei hysbysu ac yn cydymffurfio â chydraddoldeb, amrywiaeth, diogelu data a Deddfwriaeth Hawliau Dynol perthnasol, ac yn cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y coleg.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol a hygyrch ac yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol.

Mae manylion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael ar wefan y coleg. Mae gan y polisi hwn Asesiad Effaith Cydraddoldeb ynghlwm.

**18.** **Yr Iaith Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg fel y nodir gan Lywodraeth Cymru dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rydym yn croesawu ceisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i ymgeiswyr ar y ffurflen gais os hoffent dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Yna, anfonir pob gohebiaeth yn y dewis iaith. Gellir diwygio'r dewis hwn ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r coleg.

Mae modd cynnal galwadau ffôn a chyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae myfyrwyr sydd wedi astudio yn Gymraeg o'r blaen yn cael y cyfle i barhau â'u hastudiaethau yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo modd.

**19.** **Ymgynghoriad**

Mae'r Polisi wedi cael ei adolygu gan;

Pennaeth Cynhwysiant
Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr
Grŵp Prosiect Derbyniadau

Bydd y Polisi Derbyniadau Addysg Bellach (AB) yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Coleg.

## 20. Data Personol yr Ymgeisydd

Mae Cambria yn prosesu data personol ymgeisydd yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a GDPR perthnasol.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r coleg o unrhyw newidiadau i'w data personol a'u gwybodaeth gyswllt, yn enwedig eu henw(au), cyfeiriad, e-bost, rhifau ffôn cyswllt neu gollfarnau troseddol.

Bydd Cambria yn cadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr ac fe all anfon gwybodaeth am Ddiwrnodau Myfyriwr Newydd/Diwrnodau Profi, newyddion y Coleg a gwybodaeth berthnasol arall drwy lythyr, e-bost a/neu neges destun.